POLISI CYNHWYSIANT A CHYDRADDOLDEB YSGOL GYFUN GŴYR

(Mae hwn yn adlewyrchu nifer o erthyglau Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn- ee.14, 22, 23, 29, 30, 37- ond yn arbennig egwyddor Erthygl 3: Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn)

Seilir Polisi Cynhwysiant a Chydraddoldeb Ysgol Gyfun Gŵyr ar y gwerthoedd canlynol:

- disgwyliadau uchel o gyrhaeddiad pob unigolyn
- gwerthfawrogi cyfraniad a chyrhaeddiad pob unigolyn yn gyfartal
- parchu pob unigolyn am yr hyn ydyw
- ysgogi'r ymdeimlad o berthyn ym mhob unigolyn sy'n rhan o gymuned yr ysgol
- gweithredu'r egwyddor o gyfartalrwydd cyfleoedd i gymryd rhan ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol
- mae gan blant yr hawl i ddysgu gyda'i gilydd
- mae arwahanrwydd yn cyfyngu ar ein gallu i ddeall, parchu a gwerthfawrogi ein gilydd fel unigolion
- mae cynhwysiant cymdeithasol yn hanfodol i dyfu a datblygu'n berson cyflawn ac iach
- cyfle cyfartal i bob dysgwr

Nod ac Amcanion y Polisi:

- datblygu a chadarnhau ymwybyddiaeth holl staff yr ysgol o egwyddorion cynhwysiant addysgiadol a chymdeithasol
- datblygu gweithdrefnau sy'n dileu gwahaniaethu a rhagfarn
- adnabod a lleihau rhwystrau dysgu, boed y rheini'n addysgiadol, emosiynol, ymddygiadol neu gymdeithasol, er mwyn sicrhau mynediad pob disgybl i gwricwlwm addas a pherthnasol a fydd yn ennyn ymrwymiad l addysg ac hyfforddiant
- cydnabod unigoliaeth a'i ddathlu
- sicrhau bod pob unigolyn sy'n rhan o gymuned yr ysgol, yn ddieithriad, yn cael y profiad addysgol orau posibl
- sicrhau nad yw disgyblion yr ysgol hon yn dioddef o aflonyddu rhagfarnllyd ar sail hil, lliw, rhyw, crefydd, tueddfryd rhywiol, cefndir cymdeithasol, cefndir ethnig, gallu, oed, anabledd neu iaith
- cydnabod rôl allweddol rhieni yn y broses o gefnogi addysg eu plant
- ymrymo i sicrhau hyfforddiant addas a chyson i staff fedru ymateb i oblygiadau gweithredu polisi cynhwysiant o fewn yr ysgol

Cynnwys Disgyblion: adnabod carfanau mewn perygl

Mae cynhwysiant addysgol a chymdeithasol yn ymneud â chyfartalrwydd cyfleoedd i bob unigolyn beth bynnag ei oed, rhyw, hil, crefydd, cyrhaeddiad neu gefndir. Mae'n gofyn am sylw penodol at y carfanau canlynol o ddisgyblion:

- merched a bechgyn
- disgyblion a chanddynt angenion addysgol arbennig neu benodol
- disgyblion disglair
- disgyblion 'Dan Ofal' yr Awdurdod Addysg Lleol (LAC – Looked After Children)
- disgyblion anabl
- disgyblion deurywiol
- disgyblion hoyw
- disgyblion trawsrywiol
- disgyblion sy'n dioddef salwch tymor hir
- gofalwyr ifanc
- plant mewn teuluoedd sy'n dioddef pwysau
- mamau ifanc neu ferched ifanc sy'n feichiog
- lleiafrifoedd ethnig
- disgyblion sy'n blant i deithwyr
- unrhyw ddisgybl sydd mewn perygl o golli diddordeb neu gael ei wahardd

Er mwyn gweithredu'r gwerthoedd a'r amcanion uchod byddwn yn sicrhau:

- cynllunio cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol sy'n sicrhau ehangder a chyfartalrwydd cyfleodd i bob disgybl
- strwythurau gofal ynghyd â strategaethau monitro a thargedu a fydd yn creu'r diwylliant, y polisiau a'r gweithgareddau a fydd yn ein galluogi i adnabod rhwystrau i ddysgu, fel y gallwn eu dileu
- cydweithio da rhwng rhieni, Llywodraethwyr, AALl, colegau a darparwyr eraill, asiantaethau a gwasanaethau allanol, er mwyn cynnig y profiad addysgol mwyaf perthnasol a llwyddiannus i bob unigolyn er mwyn sichrau'r llwybrau cwricwlaidd addasaf i unigolion
- gofal a chyngor gyrfaol a ansawdd, yn gynnar, i bob disgybl
- mynediad i wasanaeth cwnsela o safon uchel drwy ddefnydd o gwnselwyr "Platform" yr ysgol
- strwythurau monitro presenoldeb manwl a fydd yn adnabod disgyblion mewn perygl
- systemau a strwythurau bugeiliol sy'n adnabod disgyblion sydd mwyaf mewn perygl ac yn eu cefnogi drwy brosesau mentora a chefnogi priodol e.e. eu haddysgu ar brydiau yn y Trobwynt er mwyn sicrhau cefnogaeth un-i-un ac awyrgylch gefnogol
- rhoi sylw penodol i ddatblygu sgilau sylfaenol disgyblion er mwyn hybu eu mynediad i gwricwlwm personol
- gweithredu Polisi Ymddygiad Ar Gyfer Dysgu positif sy'n gwneud yn glir i ddisgyblion, staff a rhieni disgwyliadau a gwerthoedd yr ysgol o ran ymddygiad addas ar gyfer dysgu, sy'n adnabod arwyddion colli diddordeb yn gynnar ac yn datblygu dulliau addas o ddelio â hynny

- datblygu prosesau cynllunio cynnydd sy'n cynnwys prosesau gwobrywo sy'n cefnogi llwyddiant gan effeithio'n bositif ar hunan-ddelwedd a hunan-barch unigolyn
- Cynlluniau Addysgol Unigol perthnasol ynghyd â Rhaglenni Addysgol Unigol sy'n gosod pwyslais ar ddatblygu'r sgiliau sylfaenol
- sylw i ddulliau addysgu sy'n cydnabod dulliau gwahanol unigolion o ddysgu
- hyfforddiant priodol a chyson i holl staff yr ysgol i godi ymwybyddiaeth o athroniaeth, goblygiadau a disgyblion mewn perygl
- gweithredu Cynghorau Ysgol sy'n sicrhau bod anghenion pob unigolyn yn cael llais
- rhaglen yn rhan o'r Cwricwlwm i Gymru sy'n rhoi cyfleodd i archwilio agweddau cymdeithasol a rhagfarnau ystradebol o ran hil, lliw, rhyw, crefydd, cefndir cymdeithasol, cefndir ethnig, gallu, oed, anabledd ac iaith
- rhaglen o weithgareddau allgyrsiol sy'n agored i bawb
- Cynlluniau Cefnogaeth Fugeiliol a fydd yn cynnig gofal a monitro manwl i ddisgyblion mewn perygl
- Arfer Polisi Asesu Ffurfiannol sy'n hybu'r dysgu
- bod egwyddorion cynhwysiant addysgiadol a chymdeithasol ym mhlyg ym mhob un o bolisiau perthnasol yr ysgol
- polisiau Adrannol sy'n adlewyrchu polisi'r ysgol ac yn cynnig arweiniad a strategaethau clir i bob aelod o'r Adran
- gweithredu ar egwyddorion "Ysgol sy'n parchu hawliau'r plentyn" a rhoi lle canolog i bwyllgorau amrywiol e.e. "LGBT+"
- defnyddio'r Trobwynt ac Encil fel canolfannau o ddiogelwch a chefnogaeth ar gyfer disgyblion bregus fel y gallant o hyd gyrraedd safonau dysgu sy'n adlewyrchiad o'u gallu cynhenid

Gweler hefyd Cynllun Cydraddoldeb Ysgol Gyfun Gŵyr 2024-2028

(Adolygwyd: Gorffennaf 2026)